# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
# COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS IAU**
**5 Rhagfyr 2019**
**AM 7.30 O'R GLOCH YN YR IORWERTH BRYNGWRAN**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, S Williams, R G Parry, G Parry, E Huws, S Parry, K Humphreys | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Dim | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i aelod newydd Cyng P Roberts. Cynhalwyd munud o distawrydd er cof am y ddiweddar Ceri Thomas |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** - Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 10.10.19 - Cyng G Parry yn cynnig a Cyng E Huws yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **BDO Archwilwyr Allanol.** Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru |
| **4.2** | **Cysgodfannau bws** - Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r contractwr i ofyn am gyfarfod ar y safleoedd ond mae hi'n brysur tan y flwyddyn newydd. Cytunwyd i drafod cyfarfod mis nesaf |
| **4.3** | **Bin i'r maes chwarae** - Mae Cyng K Humphreys wedi cael bin |
| **4.4** | **Llwybr yr Eglwys** - Cytunwyd i ail drafod yn y gwanwyn |
| **4.5** | **MANDAD y Banc** - Cwblhawyd ffurflenni newydd i dynnu Irfon Rowlands o'r mandad ac ychwanegu Eirian Huws |
| **4.6** | **Maes chwarae CCTV.** Mae Cyng K Humphreys yn trefnu cael pris |
| **4.7** | **Willow Tunnel** - Mae Norman Jones y contractwr torri gwair yn fodlon i gynnal y willow tunnel. Bydd y Clerc yn trefnu hyfforddiant yn y gwanwyn gyda Dee Walker |
| **4.8** | **Cyngor Bach yr Ysgol** - Bydd Cyng E Huws yn trefnu i symud y mater ymlaen |
| **4.9** | **Defibrillator** - Cytunwyd i gyfrannu £450 at y cost (bydd Pwyllgor yr Iorwerth yn gwneud y cais) |
| | |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** - Cynigiodd y Cadeirydd ddiolch i'r aelodau a'r Clerc am eu gwaith dros y flwyddyn |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | Dim |
| | **Llofnod…….Cadeirydd 15.01.20** |

| | |
|---|---|
| | |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Woodland Trust - coed ar gael am ddim - gwybodaeth yn unig |
| **7.2** | Seddi gwag - Mae 2 sedd wag ar ward Bryngwran ac mae'r cyngor wedi derbyn 3 chais. Cytunwyd gofyn i bob ymgeisydd am ragor o wybodaeth i gefnogi eu ceisiadau. Hefyd gofyn i'r Cyngor Sir ystyried codi y nifer yn ward Bryngwran i 9 sedd. |
| | |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Seddi gwag - gweler 7.2 |
| **8.2** | Peiriant Bingo - Cytunwyd i brynu peiriant bingo i'w ddefnyddio gan grwpiau lleol er cof am y Cynghorydd Ceri Thomas, y côst £128.50 - Cyng K Humphreys yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio |
| **8.3** | Lleoliad cyfarfodydd y Cyngor - Cytunwyd i symud y cyfarfodydd i'r ystafell pwyllgor yn yr Iorwerth o mis nesaf ymlaen ar yr ail nos Fercher pob mis |
| | |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu: |
| **9.1** | Rhoddion Nadolig Ysgol Bryngwran, yr Ysgol Feithrin, Plas Crigyll, Canolfan Dydd 4 x £50.00 |
| **9.2** | Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol |
| **9.3** | Costau y Clerc £240.67 |
| **9.4** | Adroddiad BDO 2018/19. Darllenwyd addroddiad BDO:<br>1 Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiad cyfrifo ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon - Ni chodwyd hyn erioed o'r blaen.<br>2 Nid yw'r Cyngor yn cofnodi cymeradwyaeth y ffurflen flynyddol sy'n cynnwys y Datgtaniadau Cyfrifo ac ymatebion y Cyngor i'r Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol. Nid yw y Cyngor yn cytuno a'r mater. Cofnodwyd cymeradwyaeth y ffurflen flynyddol yn y cyfarfod 10.01.19. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw BDO<br>3 Nid yw'r Cyngor wedi nodi dyddiad y cofnod yn cadarnhau'r datganiad cyfrifo a'r datganiad llywodraethiant blynyddol<br>4 Cynhyrchodd y Cyngor gofnodion wedi eu hargraffu gafodd eu hanfon at bwrpas archwilio. Doedd y tudalennau ddim wedi eu hardystio fel copiau dilyso'r rhai gwreiddiol.` |
| **9.5** | Cyngor Gwynedd £150.00 (archwilio mewnol) |
| **9.6** | Norman Jones £2055.00 (torri gwair) |
| **9.7** | Costau y Cadeirydd £493.16 |
| **9.8** | Costau Cyng K Humphreys £89.97 |
| **9.9** | Bryngwran Cymunedol £450.00 gweler 4.9 |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **10.1** | Baw cwn |
| | **Llofnod……Cadeirydd 15.01.20** |